***CYFLWYNIAD I DROSOLWG A SGRIWTINI***

**"Effective public scrutiny committees can be a powerful vehicle for change. It can improve the delivery of services; it can connect the public to decision-makers and politicians; it can improve efficiency….."**

**[Canolfan Llywodraethiant a Sgriwtini 2008]**

## BETH YDY SGRIWTINI?

Ffocus ar faterion o gonsyrn go iawn i ddinasydion Ynys Môn.

Herio'r sawl yn gwneud penderfyniadau i wella perfformiad.

Darparu gwiriadau a chydbwysedd ar gyfer penderfyniadau'r Pwyllgor Gwaith.

## 4 EGWYDDOR ALLWEDDOL

1. Darparu her "ffrind beirniadol" i'r Pwyllgor Gwaith.
2. Adlewyrchu llais a phryderon dinasyddion.
3. Cael ei arwain a'i berchnogi gan Aelodau'r Cyngor.
4. Cael effaith ar ddarpariaeth gwasanaethau.

## YR HYN <u>NAD</u> YW SGRIWTINI ……

Cymryd rhan mewn mân faterion neu faterion sy'n ymwneud ag unigolion.

Ymdrin â chwynion neu faterion rheoleiddio e.e. ceisiadau cynllunio neu drwyddedu.

Ymdrin â materion sy'n parhau i fod yn destun achos llys.

Gwleidyddol.

Lle i ddadlau.

Ystyried materion sy'n destun adolygiad gan sefydliad arall o fewn yr Awdurdod Lleol neu'r tu allan iddo.

Cyfle i ofyn cwestiynau i swyddogion ar eitemau nad ydynt ar y rhaglen.

Negyddol.

Lle i edrych ar bethau'n hamddenol.

# GWAITH PWYLLGORAU SGRIWTINI

Gall Bwyllgorau Sgriwtini:

1. Adolygu a chraffu ar benderfyniadau'r Pwyllgor Gwaith, Deilyddion Portffolio unigol neu Swyddogion y Cyngor.
2. Paratoi adroddiadau neu wneud argymhellion.
3. Adolygu unrhyw faterion wedi'u cyfeirio drwy'r rheolau "Galw i Mewn" a pharatoi adroddiadau a gwneud argymhellion yn ôl yr angen.
4. Adolygu a chraffu ar berfformiad gwasanaethau.
5. Ymateb i fudiadau allanol ble y mae eu gweithredu'n cael effaith ar drigolion yr Ynys.
6. Ei gwneud yn ofynnol i Aelodau'r Pwyllgor Gwaith ac uwch reolwyr fynychu cyfarfodydd a chael eu herio ynghylch materion o fewn eu meysydd cyfrifoldeb.
7. Gwahodd ymgynghorwyr arbenigol, Aelodau eraill y Cyngor, rhanddeiliaid neu aelodau'r cyhoedd i gymryd rhan mewn adolygiadau Sgriwtini.
8. Cyfeirio materion i'r Panelau Sgriwtini (sy'n cynnwys grwpiau llai o Aelodau).

## STRWYTHUR Y CYNGOR

Mae gan y Cyngor gyfanswm o 35 Cynghorydd. Mae 9 Cynghorydd yn ffurfio'r Pwyllgor Gwaith, y prif gorff gwneud penderfyniadau. Mae gan y Cyngor hefyd nifer o Bwyllgorau i ymdrin â materion fel Trwyddedu, Cynllunio a materion mewnol fel Llywodraethiant a materion Staffio.

Rheolau sy'n llywodraethu'r ffordd mae'r Pwyllgorau Trosolwg a Sgriwtini'n gweithredu gan gynnwys y cyd-destun deddfwriaethol i'w gweld yn Rhan 4 o Gyfansoddiad y Cyngor.

Mae 2 Bwyllgor Trosolwg a Sgriwtini sy'n cynnwys y mwyafrif o'n Haelodau Etholedig.

## SGRIWTINI FEL RHAN O BROSES GWNEUD PENDERFYNIADAU'R CYNGOR

